**PWYLLGOR PERSONÉL**
**(Cyfarfod Eithriadol)**

**3 Mawrth 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney (heb hawliau pleidleisio), Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod rhithiol: 2.00p.m. – 3.00p.m.)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Y Bwriad i Sefydlu Gwasanaeth Clust i Wrando**
Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu cyfarfod ar yr 2ail o Ragfyr 2020 wedi ystyried rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd P Kidney bod yr Awdurdod yn ystyried gwasanaeth mentor i staff yr Awdurdod, i drafod unrhyw broblemau neu bryderon yn sgîl y pwysau ychwanegol arnynt oherwydd y pandemig presennol. Roedd y cynnig hwn wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Personél, ac fe'i ystyriwyd mewn cyfarfod Eithriadol o'r Pwyllgor ar y 13eg o Ionawr 2021. Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw bod is-grŵp yn datblygu egwyddorion treialu 'Gwasanaeth Clust i Wrando', fyddai'n rhoi dolen gyswllt uniongyrchol i'r gweithwyr ag Aelodau'r Pwyllgor.

Roedd yr is- grŵp wedi cyfarfod, ond methwyd â chytuno ar y Cylch Gorchwyl a luniwyd gan y Rheolwr Adnoddau Dynol gan yr ystyriwyd bod y cyfryw fecanwaith yn rhy ffurfiol. Roedd y Cynghorydd Kidney wedi cyfarfod â Grŵp Cynrychiolwyr Staff yr Awdurdod, ac roedd ei syniadau wedi derbyn ymateb cadarnhaol.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwasanaeth gwrando, roedd poster wedi'i lunio i gyfleu gwybodaeth am gynllun llai ffurfiol yn ogystal â dogfen 'cyfeirio' allai fod o gymorth i'r staff wahaniaethu rhwng yr holl fecanweithiau cymorth oedd ar gael iddynt. Cafodd y ddogfen hon ei drafftio yn dilyn awgrym gan Gadeirydd y Cynrychiolwyr Staff.

Diolchodd y Cynghorydd Kidney i'r Rheolwr Adnoddau Dynol am ei waith yn bwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu Gwasanaeth Clust i Wrando ac am ei barodrwydd i gofleidio'r fenter, gan bwysleisio bod angen i'r cynnig gael ei roi mewn grym yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, yn hytrach na misoedd, er mwyn rhoi'r cymorth oedd ei angen ar y staff.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn dal i bryderu y byddai'r staff yn defnyddio'r system hon pan oeddent yn teimlo nad oedd y systemau mwy ffurfiol oedd ar waith gan yr Awdurdod wedi bodloni eu hanghenion, ac nad oedd yn credu y byddai'r staff yn ystyried bod y gwasanaeth arfaethedig yn annibynnol gan mai'r Aelodau oedd yr Awdurdod, a hwy yn y pen draw oedd yn gwneud y penderfyniadau.  Serch hynny, cytunodd y dylid treialu'r gwasanaeth yn unol â dymuniadau'r Pwyllgor.

Er bod rhai yn parhau i fod ag amheuon ynghylch darparu gwasanaeth gwrando oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl ac y byddai'r gwasanaeth yn gorgyffwrdd â'r prosesau oedd eisoes yn eu lle, roedd yr Aelodau ar y cyfan yn parhau yn gefnogol i gynnig gwasanaeth anffurfiol.  Cynigiwyd rhai sylwadau manwl am union eiriad y poster, yn enwedig o ran ehangu cwmpas y gwasanaeth i gynnwys materion gwaith yn ogystal â materion heblaw am waith, yn ogystal â'r defnydd o'r gair 'cyngor' y bernid oedd yn amhriodol gan nad oedd yr Aelodau wedi'u hyfforddi nac yn gymwys i gynnig cyngor.  Hefyd awgrymwyd, yn hytrach na'r Cylch Gorchwyl, bod angen rhestr wirio ar gyfer yr Aelodau hynny fyddai'n cynnig y gwasanaeth i sicrhau bod y staff yn cael eu hannog yn y lle cyntaf i geisio cymorth gan eu rheolwr llinell, ac egluro'r sefyllfa o ran cyfrinachedd, a'r broses o atgyfeirio materion ymlaen at y Prif Weithredwr / Rheolwr Adnoddau Dynol i weithredu yn yr achosion hynny lle barnwyd bod hynny'n briodol.

Codwyd cwestiwn ynghylch sut y byddai'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth yn cael eu dynodi, ac awgrymwyd y dylid anfon e-bost at bob Aelod yn gofyn am wirfoddolwyr, a phe bai mwy na thri yn mynegi diddordeb, y byddai'r swyddogion yn cysylltu â'r Pwyllgor i gytuno ar y ffordd ymlaen. Y gobaith oedd y gellid sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau. Awgrymwyd ymhellach y gallai fod yn bosibl darparu un rhif ffôn/cyfeiriad e-bost fyddai'n dargyfeirio'n awtomatig i'r Aelod(au) priodol. Byddai'r swyddogion yn archwilio'r posibilrwydd hwn.

O ran dyddiad lansio'r gwasanaeth, gobaith yr Aelodau oedd y gallai hyn ddigwydd ar y 1af o Ebrill. Fodd bynnag awgrymodd y swyddogion y gallai'r cyfathrebu fod yn fwy effeithiol petai'r cynllun yn cael ei gyflwyno yr un pryd â chyhoeddi cylchlythyr staff yr Awdurdod, a disgwylir i hynny fod yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill.

**PENDERFYNWYD** bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r swyddogion i ddiwygio'r poster yn unol â sylwadau'r Pwyllgor, ac i lunio dogfen fer ar restr wirio/protocol, ac i gysylltu â phob Aelod o'r Awdurdod i ofyn am wirfoddolwyr, gyda'r nod o gynnig gwasanaeth gwrando anffurfiol am gyfnod prawf o 6 mis. Y gwasanaeth i'w lansio cyn gynted â bod hynny'n ymarferol.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 heb eu diwygio. |